



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 03.11.2015

Gweithdy Only Men Aloud

Cafodd pump ar hugain o fechgyn hŷn yr ysgol gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy Only Men Aloud ddydd Mercher, Hydref 14eg gyda'r canwr opera Huw Llywelyn yn arwain y sesiwn. Roedd hi'n braf cael cyfle i brofi amrywiaeth o dechnegau defnyddio'r llais yn ogystal â chwarae nifer o gemau oedd yn annog gwaith fîm, a hefyd oedd yn profi ffitrwydd y bechgyn! Daeth y gweithdy i ben gyda'r bechgyn yn mwynhau perfformiad hyfryd gan Huw o'r gân enwog Myfanwy.

Adoygiad o'r ddrama "DRYCH" gan Llyr Titus

Ar y 29ain o Fedi 2015 aeth myfyrwyr lefel A ac TGAU drama i'r Llwyfan, Caerfyrddin, i weld "Drych" gan gwmni'r Fran wen. Drama absŵrd oedd hon, gan y dramodydd ifanc Llyr Titus, myfyriwr 22 oed. Cawsom sgript wreiddiol, yn mynd a'r gynulleidfa ar daith seicolegol ym mhennau'r ddau gymeriad, a chwaraewyd yn gampus gan Bryn Fôn a Gwenno Hodgkins. Perfformiad chwerw felys a lwyddodd i fynnu ein sylw fel cynulleidfa, wrth bendroni am freuder bywyd, pwrpas dyn ar y ddaear, a phethau dwl sy'n rhoi adloniant i bobl, fel cathod a blodau plastig o Ikea! Roedd y ddrama yn llawn symbolaeth; ar y set gwelwyd ymgorfforiad o broblemau pobl yn y sbwriel, a chymhlethdod bywyd yn cael ei gyfleu trwy sain arallfydol, ryfedd. Noson hwyliog a chofiadwy, yng nghwmni dau actor dawnus a phrofiadol, a sgript Llyr Titus yn argoeli'n wych ar gyfer dyfodol llewyrchus ym myd theatr yng Nghymru. Diolch i gwmni'r Fran Wen am fentro, a llwyddo.

Adroddiad gan Wil Prichard

Canlyniadau Rygbi

Dydd Mercher Hydref 14eg

Bro Myrddin fîm cyntaf yn colli 14 - 17 yn erbyn QEH

Canlyniadau Pêl-droed

Dydd Iau Hydref 15fed

Bro Myrddin BL 8 yn ennill 3 - 1 yn erbyn QEH

Twrnaint pêl-rwyd Dan 16 - Ann Smart

BM 10 - QEHS 8

BM 13 - DT 7

BM 11 - Maes Y Gwendraeth 5

BM 10 - DA 4

Ennill pob gêm, trwyddo i rownd Gorllewin Cymru.

Canlyniadau gemau Hoci dydd Gwener 16eg QEHS

Bl. 8 - cyfartal 1-1

Bl. 9 - cyfartal 0-0

Canlyniadau pêl-rwyd Dydd Mercher 21ain o Hydref

Bro Dinefwr

Bl. 7a -ennill 9-1

Bl. 7b - ennill 6-4

Bl. 7c - ennill 4-1

Bl. 8a - ennill 5-3

Bl. 8b - ennill 5-2

Bl. 9a - colli 12-8

Bl. 9b - colli 16-4

Noson Agored

Unwaith eto eleni cafwyd noson agored lwyddiannus, wrth i Ysgol Bro Myrddin agor ei drysau i'r cyhoedd. Roedd y noson hon yn gyfle i'r ysgol ddangos yr ysgol ar waith. Cafwyd nifer o weithgareddau ar draws yr ysgol. Dyma ychydig fwy am y noson.

Cafwyd noson hwyliog eleni yn yr adran ddrama yng nghwmni actorion dawnus Blwyddyn 10 yn perfformio detholiadau o'r ddrama "i" gan Jim Cartwright. Rhwng pob perfformiad, roedd cyfle i ddarpar ddisgyblion a rhieni pe dymument ymuno yn hwyl y gemau theatr a gyflwynwyd gan y myfyrwyr Lefel A Drama. Cafwyd monolog wych gan Daniel O'Callahan o ddrama "Câr dy Gymydog" gyda'r gynulleidfa wedi hudo gan ei sgiliau cymeriadu gwych.



Dilyn taith y Mimosa oedd prif thema'r Adran Gymraeg eleni yn dilyn dathliadau 150 mlwyddiant y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia yn ddiweddar. Braff oedd gweld yr Adran yn llawn bwrlwm gyda Blwyddyn 7 brwdfrydig wedi gwisgo fel Cymry o'r 19eg ganrif. O gwmpas llong y Mimosa, a oedd yn ganolbwynt i'r ystafell, bu'r disgyblion wrthi yn creu breichledau a blodau tusw gan dywys yr ymwelwyr o gwmpas yr arddangosfa i chwilio am atebion cystadleuaeth y cwis. Hyn oll gyda cherddoriaeth hwylus Dafydd Iwan – Ar y Mimosa, yn gefndir i'r cyfan.

Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau a chwis yn yr Adran Addysg Grefyddol. Roedd aelodau'r chweched dosbarth yn paentio dwylo darpar ddisgyblion gyda phatrymau mendi sy'n tarddu o'r grefydd Hindŵaeth. Cafwyd noson hwyliog yn rhannu gwybodaeth a chwrdd ag wynebâu hen a newydd.

Yn yr adran gerdd cafwyd lluo o berfformiadau gan y disgyblion. Bu Band yr Ysgol yn perfformio o dan arweiniad Mrs Jacquie Scaife, gyda'r repertoire yn amrywio o Yma o Hyd i ddarnau allan o'r sioe Les Miserables. Yna, cafwyd perfformiad o Agnus Dei allan o Er Hwyllo'r Haul gan Robot Arwyn gan y Côr Merched Hyn. Tro'r Côr Iau oedd hi nesaf gyda hwythau yn ymarfer 'Ceirios', cân gan J Eirian Jones a fydd yn cael ei berfformio yn y Gwasanaeth Diolchgarwch. Yna, i gloi arlwy'r Adran Gerdd, bu'r parti gwerin hyn yn ymarfer y darn 'Merch y Melinydd', darn y byddant hwythau yn canu yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym mis Tachwedd.

Roedd hi'n llawn bwrlwm unwaith eto yn yr adran Fioleg o'r goeden fywyd i waith Alexander Fleming a Phenisilin, yn wir gafwyd brwdfrydedd ac ymateb arbennig o dda gan ddisgyblion a rhieni. Roedd yna gyfle i fod yn Arth Wen dew neu denau ac i adael eich bysbrintiau ar gyfer y FBI yma ym Mro Myrddin. Gwelwyd briwiau heintiedig a bacteria lliwgar a ffwng llwydni yn tyfu ar ben jeli agar. Rhyfeddodau'r byd byw!

Hyfryd oedd cwrdd â ffrindiau hen a newydd ac i holi ac ateb cwestiynau'r plant ac oedolion.

Pencampwyr sgïo

Longyfarchiadau i Aidan Jones, Owen Llewellyn-Jones, Huw Butterworth a Tom Butterworth am ennill cystadleuaeth sgïo Cymru yn ddiweddar. Am y tro cyntaf erioed, Bro Myrddin yw pencampwyr Cymru a'r 'sgï' i brofi hynny yn cael eu harddangos yng nghyntedd yr ysgol.



Taith Addysg Grefyddol blwyddyn 7 i Gaerdydd

Ar ddydd Mercher y 14eg o Hydref aeth blwyddyn 7 ar daith Addysg Grefyddol i Gaerdydd am y diwrnod i ymweld â'r Synagog a Gwrdwara. Cafwyd croeso arbennig gan y Sikhiaid yn y Gwrdwara. Roedd angen i'r merched wisgo sgarff i orchuddio eu pennau a'r bechgyn yn gorfod gwisgo rhywfath o fandana are i pen. Roedd rhaid tynnu esgidiau a golchi dwylo cyn mynd i fyny'r grisiau. Ar ôl cyrraedd pen y grisiau rhaid oedd cerdded yn araf at y Guru Granth Sahib cyn penlinio ar y flanced fawr wen, bechgyn ar un ochr a'r merched ar yr ochr arall. Cafwyd cyflwyniad gan Mr Boghal un o'r Sikhiaid am y grefydd ac eglurwyd amrywiaeth o symbolau mae'r Sikhiaid yn ei wisgo. Yna cafwyd cyfle i gael brechdanau a chreision a sesiwn o holi cwestiynau cyn gwneud ei ffordd i'r Synagog.



Rhaid oedd cerdded i mewn trwy gatiâu mawr haearn i mewn i'r Synagog lle y croesawyd pawb gan y Rabi. Yn debyg i'r Gwrdwara roedd yn rhaid i'r bechgyn wisgo hef fach ar ei pen sef Cipa. Siaradodd y Rabi am y Torah ac am ddydd Saboth y Shabbat. Dysgwyd llawer am y Shabbat sef dydd Saboth yr Iddewon sy'n digwydd bob penwythnos gan ddechrau ar nos Wener a gorffen nos Sadwrn. Nodwyd nad oedd hawl ganddynt ddefnyddio tân, felly, dim coginio, gyrru car na defnyddio plwg yn y wal. Yna gwelwyd y Torah oedd yn cael ei gadw yn yr Arch. Roedd yn ddiddorol iawn gweld maint y Torha's gwreiddiol.

Hoffem ddiolch i'r Adran Astudiaethau Crefyddol am drefnu'r daith ac i ddysgu mwy am y grefydd Iddewiaeth a Sikhiaeth.

Adroddiad gan Megan Jones 7.3

Gwasanaeth Diolchgarwch

I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Croesawyd y Parchedig Beti Wyn James i rannu ei neges. Cafwyd darlleniadau gan y prif swyddogion Lowri Luxton, Aled Rosser, Lowri Butterworth, Mared Jones, Iwan Harries ac Ieuan Jones. Cafwyd cyfraniad arbennig gan ddisgyblion o flwyddyn 7 i'r gwasanaeth sef Betsan Elias, Betsan Campbell, Carina Sidhu, Rhys Lewis a Llew Richards. Cafwyd eitemau cerddorol gan y Côr Iau - Ceirios (J Eirian Jones) dan arweiniad Mrs Nia Evans a chân gan y Parti Merched Hŷn - Angus Dei (Robart Arwyn) a chân gan y côr hyn - Canaf yn y bore (L.J.Roberts) dan arweiniad Mrs Meinir Richards. Diolch i bawb am eu cyfraniad ac yn enwedig i'r Parchedig Beti Wyn James am ei neges ddiddorol a phwrpasol.



Capteiniaid Llys 2015- 2016

Longyfarchiadau i'r canlynol am eu hethol i fod yn bennaethiaid a dirprwy gapteiniad Llys. Pob lwc gyda'r sialens newydd

Hengwrt

Pennaeth Llys - Sioned Beynon ac Osian McAvoy

Dirprwy bennaeth llys - Beth Jones a Jac Rogers-Walters

Peniarth

Pennaeth Llys - Ffion Thomas a Cai Evans

Dirprwy bennaeth llys – Menna Thomas a William Davies

Hergest

Pennaeth Llys - Greta Llŷr a Carwyn Bebb

Dirprwy bennaeth llys – Elen Fflur Davies a Edward Rock

Llwydiarth

Pennaeth Llys – Mared Powell a Aiden Jones

Dirprwy bennaeth llys – Marged Smith a Gabriel Wharton

Banc Bwyd Gaerfyrddin

Yn dilyn ein gwasanaeth Diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin. Ar fore lau, yr 22ain o Hydref aeth criw o'r chweched dosbarth i Fanc Bwyd yng Nghaerfyrddin i drosglwyddo'r nwyddau. Cawsom ein tywys gan un o wirfoddolwyr y ganolfan a eglurodd bwysigrwydd y bwyd i deuluoedd lleol. Roeddent yn ddiolchgar dros ben am ein cyfraniad o Ysgol Fro Myrddin.



Tlws yr Ifanc Eisteddfod Bancffosfelen

Llongyfarchiadau i Ela Wyn James am ennill tlws yr ifanc yn Eisteddfod Bancffosfelen. Enillodd y brif wobwr sef tlws Mr a Mrs Emanuel am y gwaith gorau yn yr Adran lân. Da iawn ti.